

Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

8 Chwefror 2019 am 13:30

Ystafell Gynadledda'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin / Democratic Services' Unit Committee Room, County Hall, Carmarthen

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Cyng. Peter Hughes-Griffiths	PHG	Plaid Cymru (Cadeirydd)
Cyng. Edward Thomas	ET	Annibynnol (Is-gadeirydd)
Cyng. Alun Lenny	AL	Plaid Cymru
Cyng. Dorian Williams	DW	Plaid Cymru
Cyng. Sue Allen	SA	Annibynnol
Cyng. Joseph Davies	JD	Annibynnol
Marc Griffiths	MG	Stiwedio Box
Swyddogion		
Ian Jones	IJ	Pennaeth Hamdden a Diwylliant
Llinos Evans	LIE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Tina Higgins, Cynghorydd Carys Jones, Cynghorydd Rob James, Wendy Walters, Gwyneth Ayers a Sionedwyn Stacey.	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf 25.09.2018 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.	
3.	Adrodd ar gynnydd yr is-adran Hamdden a Diwylliant – Ian Jones Croesawyd Ian Jones i'r cyfarfod i drafod y cynnydd ar ddefnydd o'r Gymraeg yn yr Isadran Hamdden a Diwylliant.	

	<p>Nodwyd bod Cynllun Hybu'r Gymraeg wedi cael ei ddiweddarau ers cyfarfod y Fforwm Strategol yn yr wythnos diwethaf. Mae tîm rheoli'r isadran hamdden yn cwrdd pob pythefnos. O hyn allan, bydd y Tîm Rheoli Hamdden yn cwrdd gyda'r Tîm Polisi pob chwarter i sicrhau bod y Strategaeth hybu'n symud ymlaen. Yr Arweinwyr Iaith wedyn yn lygaid a chlustiau ar lawr gwlad, yn hyrwyddo'r hyn sy'n digwydd.</p> <p>Mae'r isadran wedi cytuno ac ymrwymo i symud y gwasanaeth ar hyd y continwmm i ddarparu yn bennaf yn Gymraeg yn y dyfodol.</p> <p>Gwersi nofio: Gwelliant wedi digwydd. Gwersi Cymraeg neu ddwyieithog o 29% i 49% yn y flwyddyn diwethaf. Ni chafwyd cymaint o gynnydd yn Llanelli gan fod her o ran y staffio cyfredol yn y Ganolfan sydd angen cael ei ddatblygu.</p> <p>O ran gwersi nofio ysgolion, nodwyd bod Cydlynnydd yn cael ei ddarparu gan y Cyngor a'r athrawon o'r ysgolion unigol yn darparu. Mae'r cyrsiau i blant yn fwy dwys nawr, yn ddyddiol am gyfnod o dair wythnos yn hytrach nac yn wythnosol.</p> <p>Mae'r plant yn gallu mynd i mewn i wersi'r Cyngor yn dilyn y gwersi nofio ysgol.</p> <p>Rydym fel Cyngor yn recriwtio i sicrhau bod y staff yn gallu darparu'n Gymraeg neu'n ddwyieithog.</p> <p>Mae'r isadran yn cynnig gwersi Cymraeg ar lefel <i>Splash</i>. Ar y lefelau nofio is, mae'r gwersi'n cael eu darparu'n Gymraeg. Ar ôl y lefelau is, byddwn ni'n gallu darparu'n ddwyieithog. Yn Rhydaman mae'n bosib i ni ddarparu pob lefel yn ddwyieithog, yn Llanelli at lefel 6. Mae'r cysondeb yn gwella ond mae ychydig o ffordd i fynd.</p> <p>Cafwyd ymholiad o ran ymateb y staff i'r e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith.</p> <p>Nodwyd bod <i>Nofio Cymru</i> yn wan ar ddarparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac y bydd y Cyngor yn creu fideo i hyfforddi ein staff ar sut i gynnal sesiwn dwyieithog da.</p> <p>Ymholodd AL a fyddai'r fideo ar gael ar gyfer Awdurdodau Lleol eraill? Mae hyn yn syniad posib. Byddwn yn fwy na hapus i rannu'r deunyddiau yn y grŵp Penaethiaid Hamdden yr Awdurdodau Lleol.</p> <p>Mae'n bosib y byddai'r fideo yn ddefnyddiol mewn meysydd eraill yn yr Adran, fel ar gyfer sesiynau celf ayb, gan fod yr un egwyddorion wrth gynnal hyfforddiant.</p> <p>Cafwyd diweddariad o ran y meysydd canlynol -</p> <ul style="list-style-type: none"> • O ran y Gwobrau Chwaraeon blyneddol, bydd y Wobr ar gyfer Tîm y flwyddyn yn cynnwys criteria o ran 'hybu'r Gymraeg'. • O ran y Theatrau, nodwyd bod mwy o sioeau Cymraeg a mwy o waith cymunedol. Mae strwythur staffio newydd yn dilyn penodiad Sharon Casey. • Pencampwyr Iaith – Hyrwyddo'r Gymraeg ar ddyddiau Gwyliau. Cwis Cymraeg ar ddiwrnod Shwmae Sumae. • Asesu staff o ran sgiliau iaith. 170 allan o'r 800 sy'n llawn amser yn yr Adran. Dim ond 18 o'r staff oedd ddim ar lefel 1. Byddwn yn edrych ar y cynnydd yn flynyddol. • Datblygu mwy o berthynas gyda S4C o ran cynnig cynulleidfaoedd i raglenni fel 'Jonathan'. • Gweithio ar sicrhau Clwb Actif drwy gyfrwng y Gymraeg o ran staffio. 	
--	---	--

	Diolchwyd i Ian am ei gyflwyniad manwl.	
4.	<p>Cerddoriaeth Ddwieithog – Marc Griffiths</p> <p>Estynnwyd croeso cynnes i Marc Griffiths i'r cyfarfod.</p> <p>Esboniodd MG ei waith gan nodi ei fod yn cynnal gweithdai mewn ysgolion, a sefydlodd fel menter newydd yn 2009, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o gerddoriaeth Gymraeg, i hyrwyddo'r Gymraeg. Yn dilyn y gweithdai, sefydlodd MG Cymru FM, gorsaf radio ar y we, er mwyn hyrwyddo cerddoriaeth Cymraeg. Mae'r rhaglenni radio mae'r plant nawr yn creu yn gallu cael eu ffrydio ar Cymru FM. Ers 17 mlynedd mae rhaglen radio Marc ar Radio Cymru. Mae e'n gosod system sain mewn digwyddiadau cymunedol ac ysgolion. Mae nifer o ysgolion Cymraeg yn dymuno chwarae cerddoriaeth Cymraeg i weithredu'r siarter iaith.</p> <p>Yn dilyn sgwrs tua 2 flynedd yn ôl treialwyd defnyddio Apton i ffrydio miwsig Cymraeg yn ein canolfannau hamdden. Penderfynwyd bod angen sefydlu ffrwd gerddoriaeth newydd ar gyfer chwarae cerddoriaeth dwieithog yn adeiladau'r Cyngor sydd a systemau sain. Mae hyn yn cynnwys –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canolfannau Hamdden Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman • Theatr y Ffwrnes • Marchnad Llanelli <p>Mae gwaith ar droed i osod bocsys / dolen ddarlledu yn y farchnad yng Nghaerfyrddin a'r Hwb yn Llanelli a Rhydaman. Oni bai am heddiw (Dydd Miwsig Cymru) bydd 3 can Gymraeg a 3 Saesneg yn cael ei chwarae.</p> <p>Mae ansawdd y sain yn ddibynnol ar ansawdd y we yn y lleoliadau. Mae'r gerddoriaeth yn cael ei newid yn gyson, yn wythnosol. Mae'n anodd plesio pawb o ran natur y gerddoriaeth. Bydd modd newid y cynnwys wrth i ni dreialu. Amrywiaeth yn cael ei chwarae. Y cyfan yn dod o un hwb a dim angen i'r staff newid dim.</p> <p>PHG Y cam nesaf yw i'r swyddogion Byd Busnes i hybu chwarae cerddoriaeth Cymraeg mewn busnesau.</p> <p>Nodwyd bod potensial gan y Cyngor i greu hysbysebion wedi ei deilwra a'u chwarae ar y ffrwd gerddoriaeth. Gall negeseuon y Cyngor fynd allan ar y ffrwd.</p> <p>Diolchwyd i Marc am ei gyflwyniad a'i waith ar y prosiect.</p>	
5.	<p>Ymchwil y Gymraeg ym myd Busnes</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Sionedwyn Stacey ar gyfer y cyfarfod, oherwydd salwch.</p> <p>Cytunwyd i'w gwahodd i'r cyfarfod nesaf ym mis Mai i gyflwyno'r gwaith ymchwil.</p>	LLE
6.	<p>Diweddariad</p> <p>Cylchredwyd y datganiad diweddar oddi wrth Eluned Morgan AC. Fe baratôdd y Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad o ran Bil y Gymraeg ym mis Medi 2018. Mae'r datganiad hwn yn cadarnhau na fydd swydd y Comisiynydd yn cael ei ddileu a ni bydd Comisiwn neu gorff annibynnol i hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei greu. Bydd y gwaith o ran Safonau'r Gymraeg yn parhau.</p>	

	<p>Economi yw'r maes nesaf bydd yn cael ein sylw. Fe fydd adroddiad yn digwydd yn y Fforwm Strategol sirol nesaf ac yng nghyfarfod nesaf y Panel.</p> <p>Cytunwyd i wahodd Neil Edwards, Pennaeth Gwasanaethau Integredig i ddod i'r cyfarfod nesaf i drafod hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i bobl hŷn a bregus.</p>	
7.	Unrhyw fater arall	
8.	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>2 Mai 2019 am 13:30 – Ystafell Gynadledda Ddemocrataidd, Neuadd y Sir</p>	